**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CABINET**

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Mawrth, 6 Medi 2022 am 2.30 pm

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd B Harris

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Ms L Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr D James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu
Mr D Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr A Critchlow, Rheolwr Gwasanaethau Parcio a Gwaith Stryd
Mr S Williams, Pennaeth Materion Buddsoddi Strategol

### 32 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Daeth ymddiheuriadau am golli'r cyfarfod oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M Webber a C Leyshon.

### 33 Datgan Buddiant

Datganodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg y buddiant sy'n rhagfarnu canlynol mewn perthynas â'r eitem: "Byddai aelod agos o'r teulu yn derbyn y cymorth i staff y Cyngor ar gyflogau is." Gadawodd yr Aelod o'r Cabinet y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar yr eitem yma.

### 34 Cofnodion

**PENDERFYNODD** y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2022.

### 35 Cymorth Costau Byw Lleol - Cynllun Atodol (Disgresiynol)

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol fanylion i'r Cabinet am

Gynllun Atodol (Disgresiynol) - Cymorth Costau Byw Lleol i'w drafod.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Nodi a chymeradwyo manylion y Cynllun Atodol (Disgresiynol) - Cymorth Costau Byw Lleol; a
2. Nodi a chymeradwyo'r trefniadau gweithredu a'r trefniadau ar gyfer dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol fel sydd wedi'i nodi yn adran 10.

**36 Cynllun Corfforaethol y Cyngor – Blaenoriaethau Buddsoddi**

Nododd y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Digidol y sefyllfa o ran cyfle'r Cabinet i gynnig bod y Cyngor yn buddsoddi ymhellach yn ei feysydd â blaenoriaeth, yn unol â'r Cynllun Corfforaethol, "Gwneud Gwahaniaeth" 2020-2024.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Cynnig y trefniadau buddsoddi ac ariannu ychwanegol fel y'u nodwyd yn Atodiad A yr adroddiad a gafodd ei gyflwyno i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Medi 2022.

**37 Cyflwyno Grant Paneli Solar newydd ac Ymestyn y Grant Gwresogi**

Ceisiodd y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu gymeradwyaeth y Cabinet i sefydlu cynllun grant paneli solar newydd ar gyfer trigolion RhCT sy'n cefnogi Strategaeth Cynhesrwydd Fforddiadwy 2019-2023 y Cyngor a Chynllun 2022-25 RhCT 'Hinsawdd Ystyriol RhCT' – Gwneud Rhondda Cynon Taf yn Garbon Niwtral erbyn 2030; ac ymestyn y cynllun grant gwresogi domestig presennol tan 2025 ar gyfer trigolion RhCT er mwyn trwsio neu osod system wresogi newydd a mesurau effeithlonrwydd ynni yn unol â Strategaeth Cynhesrwydd Fforddiadwy 2019-2023 y Cyngor a Chynllun 2022-25 RhCT 'Hinsawdd Ystyriol RhCT' – Gwneud Rhondda Cynon Taf yn Garbon Niwtral erbyn 2030.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Cymeradwyo sefydlu grant paneli solar newydd hyd at 2025; a
2. Nodi'r effaith gadarnhaol y mae'r grant gwresogi domestig wedi'i chael ar drigolion RhCT a chytuno i ymestyn y grant tan 2025.

**38 Cynllun Pontio i Gerbydau Allyriadau Isel Iawn**

Amlinellodd Swyddog y Gwasanaethau Rheng Flaen gynllun y Cyngor i bontio o gerbydau â motor tanio mewnol i gerbydau allyriadau isel iawn dros y 6 mlynedd nesaf. Mae cwmpas a phrif ganolbwynt yr adroddiad yn cyfeirio at gerbydau nwyddau ysgafn y Cyngor.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad a phenderfynu cefnogi:

   a) Caffael cerbydau nwyddau ysgafn trydan, naill ai drwy eu llogi ar brydles neu'u prynu nhw, i gymryd lle cerbydau â motor tanio mewnol yn unol â'r amserlen ddangosol isod mewn ffordd raddol.

   b) Datblygu a gosod seilwaith gwefru cerbydau trydan (EVCI) cysylltiedig er mwyn darparu a rhoi'r cynllun pontio i gerbydau allyriadau isel iawn (ULEV) ar waith yn llwyddiannus.

   c) Rhoi prawf ar gerbydau â thanwydd amgen, megis Hydrogen ac Olew Llysiau wedi'i drin â hydrogen (HVO), pan a lle bydd ar gael. (Mae un HVO o'r fath wrthi'n cael ei roi ar brawf mewn perthynas â detholiad o gerbydau nwyddau trwm y Cyngor, gyda datblygiadau'n cael eu monitro'n agos am arwyddion o ostyngiadau mewn allyriadau carbon, y byddai modd eu defnyddio i lywio mentrau cerbydau gwyrdd yn y dyfodol).

2. Bod Swyddogion yn parhau i fanteisio ar unrhyw gyfleoedd i sicrhau grantiau i gynorthwyo gydag ariannu, naill ai'n rhannol neu'n llawn, unrhyw agwedd ar gaffael ULEV neu ddatblygu EVCI.

**39 Cynllun Dirprwyo'r Arweinydd - 3A**

**PENDERFYNODD** y Cabinet nodi'r newidiadau i Gynllun Dirprwyo'r Arweinydd fel y manylwyd gan y Cyfarwyddwr.

**Daeth y cyfarfod i ben am 3.00 pm**

**Cllr A Morgan**
**Cadeirydd.**